Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Methotrexate

# Uned Llygaid

---

**Beth yw e?**
Mae Methotrexate yn gyffur a ddefnyddir i drin mathau gwahanol o haint ymchwyddol, gan gynnwys uveitis. Gall leihau chwyddo a hefyd effeithio ar y system imiwnedd (system amddiffyn y corff). Un o'r pethau a wna yw lleihau gweithgarwch y system imiwnedd, felly mae bob amser yn cael ei ddefnyddio â gofal ac mae angen ei fonitro'n ofalus i osgoi tocsigedd.

Mae'n gweithio'n araf a gall gymryd 6-12 wythnos i gael effaith.

**Sut dylai Methotrexate gael ei gymryd?**
Fel arfer caiff ei gymryd drwy dabled **unwaith yr wythnos** ar yr un dydd. Ni chaiff **byth ei ddefnyddio bob dydd.** Dewiswch ddiwrnod sydd orau i chi gymryd eich triniaeth a chadwch at y drefn honno.

Dylai Methotrexate gael ei gymryd gyda bwyd. Dylai'r tabled gael ei lyncu'n llawn a ddim mo'i wasgu na'i gnoi.

Gallai ffurfiau eraill ar fethotrexate fod ar gael. Trafodwch yr opsiynau hyn â'ch meddyg.

**Pa ddôs dylwn ei gymryd?**
Bydd eich meddyg yn dweud wrthych ba ddos i'w gymryd. Fel arfer byddwch yn dechrau ar ddos isel (e.e. 5mg neu 7.5mg yr wythnos). Gallai'ch dos gael ei gynyddu'n dibynnu ar sut rydych yn ymateb i'r driniaeth. Gallai'ch meddyg argymell i chi hefyd gymryd fitaminau o'r enw asid ffolig a all lleihau'r tebygolrwydd o gael sgîl-effeithiau.

Mae tabledi Methotrexate ar gael mewn dosau 2.5m a 10mg. Mae'r ddau gryfder yn siapiau gwahanol ond mae'r lliw'n debyg iawn felly cofiwch wneud yn siŵr fod y dos yn gywir. Darllenwch y presgripsiwn a'r tabledi'n ofalus iawn bob tro rydych yn nôl eich meddyginiaeth.

**Beth os bydda i'n methu dos?**
Os anghofiwch gymryd eich meddyginiaeth, peidiwch â dyblu'ch dos nesaf, ond gwnewch nodyn ohono a rhowch wybod i'ch meddyg teulu neu arbenigwr yn eich apwyntiad nesaf. Mae'n rhesymol cymryd eich tabledi methotrexate ddiwrnod yn hwyrach os anghofiwch eu cymryd ar y diwrnod arferol.

**Beth yw'r sgîl-effeithiau posibl?**
Fel gyda phob meddyginiaeth, mae'r rhai cleifion weithiau'n cael sgîl-effeithiau.

Gallai godi pwys arnoch, rhoi dŵr poeth i chi neu gallech chwydu, ond mae'r rhain fel arfer yn diflannu ar ôl ambell ddos. Os yw'r salwch yn ddifrifol, holwch eich meddyg teulu.

Os ydych yn cael brech newydd neu gosi difrifol ceisiwch gyngor gan eich meddyg.

Gallech deimlo'n fwy blinedig na'r arfer, yn enwedig wrth ddechrau methotrexate.

Gall eich gwallt deneuo, er bod hyn yn anghyffredin ac os bydd yn digwydd ni fydd i raddau mawr. Mae gwallt fel arfer yn ail-dyfu ar ôl dod â'r driniaeth i ben.

Gall gymryd methotrexate effeithio ar gyfrif celloedd gwaed. Un o'r effeithiau yw bod llai o gelloedd gwaed yn cael eu creu a gall hyn ei wneud yn fwy tebygol i chi ddatblygu heintiau. Os cewch wlseri ceg, gwddwg tost neu haint arall, twymyn, cleisiau neu waedu heb esboniad, neu os byddwch yn cael symptomau newydd ar ôl dechrau cymryd methotrexate, dylech weld eich meddyg neu gysylltu â'r Nyrs Arbenigol Uveitis cyn gynted â phosibl.

Mae posibiliad bach iawn y gall chwyddo'r ysgyfaint a all arwain at fod yn fyr o wynt. **Os ydych yn fyr o wynt, dylech fynd at eich meddyg ar unwaith.**

Os nad ydych wedi cael y frech ieir ond eich bod yn dod i gysylltiad â rhywun sydd â'r frech ieir neu'r eryr tra'ch bod yn cymryd methotrexate dylech weld eich meddyg ar unwaith gan y gallai fod angen triniaeth arbennig arnoch.

**Oes angen profion arbennig tra'ch bod ar Fethotrexate?**
Gan y gall methotrexate effeithio ar gyfrif y gwaed ac weithiau achosi problemau â'r iau, bydd eich meddyg yn trefnu i chi gael prawf gwaed cyn dechrau ar y driniaeth a phrofion gwaed rheolaeth tra'n bod yn cymryd methotrexate. **Ni allwch gymryd methotrexate onid ydych chi'n cael profion rheolaidd.**

**Allwch chi gymryd meddyginiaethau eraill ar y cyd â methotrexate?**
Mae methotrexate yn adweithio gyda nifer o feddyginiaethau eraill felly dylech drafod unrhyw feddyginiaethau newydd â'ch meddyg cyn dechrau arnynt. Dylech bob amser ddweud wrth unrhyw feddyg arall sy'n eich trin eich bod yn cymryd methotrexate. Peidiwch â chymryd moddion dros y cownter heb eu trafod â'ch meddyg neu fferyllydd.

Mae angen gofal arbennig gyda chyffuriau gwrthlidiol heb steroids (NSAIDau). Ni allwch gymryd NSAIDau onid ydy'ch meddyg yn rhoi presgripsiwn i chi. Dylech hefyd osgoi cyffuriau sy'n cynnwys Trimethroprim (e.e. Septrin ar gyfer heintiau).

**Allwch chi yfed alcohol wrth gymryd methotrexate?**
Os ydych chi'n yfed alcohol ni ddylech ond yfed ychydig bach gan y gall methotrexate ac alcohol ryngweithio a niweidio'ch iau. Trafodwch hyn â'ch meddyg.

**Allwch chi gael eich imiwneiddio wrth gymryd methotrexate?**
Ni ddylech gymryd unrhyw frechiadau 'byw' fel polio, rwbela (brech Almaenig), MMR a'r clefyd melyn.

Dylai brechiad polio 'di-actif' yn lle'r fersiwn 'fyw' hefyd gael ei roi i'r bobl rydych mewn cysylltiad agos â nhw, fel aelodau'ch teulu a'ch cartref. Dylech osgoi dod i gysylltiad â phlant neu oedolion sydd wedi cael brechiad polio 'byw' am 4-6 wythnos ar ôl cael brechiad.

Mae brechiadau ffliw a pneumovax blynyddol yn ddiogel ac yn cael eu hargymell.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, trafodwch nhw â'ch meddyg.

**Ydy methotrexate yn effeithio ar ffrwythlondeb neu feichiogrwydd?**
Rydym yn argymell i unrhyw ferch a all esgor plentyn sy'n cymryd triniaethau gwrthimiwnaidd osgoi mynd yn feichiog gan y gall rhai cyffuriau gynyddu'r risg o ddiffygion geni a/neu broblemau datblygiadol. Gallai fod angen i ddynion ar driniaethau gwrthimiwnaidd hefyd fod yn ofalus.

Mae'r ffurf fwyaf priodol ar atal genhedlu'n dibynnu ar y meddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd, felly gofynnwch i ni am gyngor. Rhowch wybod a ydych yn bwriadu dechrau teulu fel y gallwn drafod opsiynau triniaeth â chi.

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau o ran y cyffur, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu Adran y Llygaid yn Ysbyty Brenhinol Gwent.

Tu allan i oriau: 01633 – 238856
(Atgyfeiriad Brys)
8:30am-6pm

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English".**